Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dathlu'r 10

@colegcymraeg

# **Dathlu'r Deg**
# hanes degawd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol



# CYNNWYS


**03—04** Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**05—14** 10 ffaith y dengmlwyddiant

**15—18** Gwireddu'r freuddwyd

**19—22** Y blynyddoedd cynnar

**23—26** Cefnogaeth i'r gymuned addysgu:

— Geiriadur Termau Addysg Uwch
— Porth Adnoddau
— Ysgoloriaeth Ymchwil
— Cynadleddau Ymchwil
— Gwerddon
— Gwobrau Academaidd
— Cymrodyr er Anrhydedd
— Cynllun Darlithwyr Cysylltiol


**27—36** Gweithlu dwyieithog y dyfodol:

— Ysgoloriaethau
— Llysgenhadon
— Canghennau

**37—42** Addysg ôl-16 a Phrentisiaethau

**43—45** Y bennod nesaf

# COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL



Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw'r corff strategol a chyllidol sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru drwy ein prifysgolion, colegau a darparwyr prentisiaethau. Y nod yw cynnig cyfle i fyfyrwyr a dysgwyr brofi addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg gan arwain at ddatblygu gweithlu Cymraeg a dwyieithog hyderus ar draws yr amrywiol feysydd.

Roedd y galw am Goleg Cymraeg ar droad y ganrif yn un cryf a swnllyd, a hynny o blith academyddion, ymgyrchwyr iaith ac yn bwysig hefyd, y myfyrwyr eu hunain. Creu Coleg Ffederal oedd y nod ar y cychwyn. Roedd rhai'n awyddus i weld sefydlu coleg brics a morter newydd oedd ddim ond yn darparu cyrsiau prifysgol Cymraeg. Roedd eraill am sefydlu corff strategol a chyllido i ddarparu cyrsiau ym mhob un o brifysgolion Cymru. Cafodd nifer o gynlluniau manwl eu cynnig ond doedd yna ddim cytundeb ar y manylion ac roedd y cysyniad o 'goleg ffederal' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl.



## "ALLWN NI DDIM CYMRYD EIN TROED OFF Y PEDAL CHWAITH."

Pan sefydlwyd Llywodraeth "Cymru'n Un" rhwng Plaid Lafur Cymru a Phlaid Cymru yn 2007, fe drodd y trafod yn bolisi. Cafodd bwrdd cynllunio ei greu dan arweiniad yr Athro Robin Williams. Hyn arweiniodd at sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Ers ei sefydlu, mae'r Coleg wedi sicrhau cynnydd aruthrol yn nifer y cyrsiau a phynciau mae modd eu hastudio ym mhrifysgolion Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae wedi creu strategaeth glir, llwybr i greu gweithlu hyderus a statws i'r iaith.

Addysg prifysgol fu canolbwynt gwaith y Coleg yn y blynyddoedd cynnar, ond erbyn hyn y Coleg sydd hefyd yn gyfrifol am gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau – y jam yn y frechdan addysg Gymraeg rhwng yr ysgolion a'r prifysgolion. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn o benodi staff dysgu ar hyd a lled Cymru ar gyfer cyrsiau galwedigaethol a phrentisiaethau.

Mae'r Coleg yn rhan ganolog o brofiad unrhyw fyfyriwr, athro neu ddarlithydd sy'n astudio a gweithio drwy'r Gymraeg ac yn greiddiol i ymgyrch Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.


▲
**Uchod:**
Yr **Athro** Robin Williams

**Priodolir pob llun a labelwyd i** Stephen Kingston**, oni nodir hynny'n wahanol yn y credydau llun unigol. Lluniau llysgenhadon, Coleg Cymraeg**


# 10 FFAITH Y DENG MLWYDDIANT

# 01

Yn 2011, dim ond **12** o'r **37** prif grwp pwnc oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel prifysgol. Erbyn 2019/20, mae **33** ar gael.



2019/20



2011

# 02

Mae dros **1,900** o fyfyrwyr wedi derbyn ysgoloriaethau israddedig gan y Coleg Cymraeg i ddilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

1,900

# 03

Mae dros **£3.1 miliwn** wedi'i rannu dros y degawd mewn ysgoloriaethau is-radd a meistr.



# 04

Yn 2010/11, dim ond **710** o staff mewn prifysgolion oedd yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2019/20, roedd hyn wedi cynyddu i **1,135**



# 05

Yn 2010/11, roedd **3,005** o fyfyrwyr llawn amser yn astudio o leiaf rywfaint o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2019/20, roedd hyn wedi codi i **4,740**




# 06

Yn 20010/11, roedd **2,095** yn astudio o leiaf draean eu cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2019/20 roedd y ffigwr yn **2,670**




# 07

Mae dros **90** o fyfyrwyr wedi cwblhau doethuriaeth (PhD) dan nawdd y Coleg, a **40** arall yn astudio ar gyfer doethuriaeth ar hyn o bryd



# 08

Mae **1,868** o fyfyrwyr wedi cwblhau'r Dystysgrif Sgiliau Iaith ers 2013.



# 09

Ers 2019, mae dros **10,000** o ddysgwyr wedi elwa o brosiectau'r Coleg yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau.



# 10

Ers sefydlu Cynllun Llysgenhadon y Coleg Cymraeg, mae **284** o ddysgwyr, myfyrwyr a phrentisiaid wedi ymgymryd â rôl fel Llysgennad.



# GWIREDDU'R FREUDDWYD

## "DOEDD 'NA DDIM STRATEGAETH GENEDLAETHOL A PHRIN OEDD Y STRATEGAETHAU SEFYDLIADOL HEFYD"



Ar droad y ganrif hon, roedd addysg Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi hen sefydlu ac yn rhan annatod o fywyd Cymru. Ond wrth i bobl ifanc adael yr ysgol, doedd yr un ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ddim ar gael mewn prifysgolion.

**"Hap a damwain oedd bod myfyriwr yn gallu dilyn cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg"** yn ôl Meri Huws, sydd bellach ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ond a fu'n gweithio mewn prifysgolion cyn ei phenodi'n Gomisiynydd y Gymraeg. **"Roedd yn dibynnu cymaint a oedd yna unigolyn yn y sefydliad oedd yn gallu dysgu, ac yn awyddus i ddarlithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Doedd 'na ddim strategaeth genedlaethol a phrin oedd y strategaethau sefydliadol hefyd."**

Gyda geni'r Cynulliad Cenedlaethol a datganoli addysg i Fae Caerdydd, roedd yna deimlad bod gwir angen strategaeth i roi statws i addysg Gymraeg yn ein prifysgolion. Doedd yna'r un unigolyn aeth ati i drefnu'r ymgyrch. Yn ôl y rhai oedd ynghlwm â'r trafodaethau yn y cyfnod, daeth sawl carfan wahanol at ei gilydd ar yr adeg iawn.

Meddai Meri Huws **"Un o'r pethau wnaeth ysgogi hynny oedd y ffaith bod addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion wedi bod mor llwyddiannus o ran ymestyn allan ar draws Cymru a chreu darpar fyfyrwyr a myfyrwyr oedd yn gweld fod ganddyn nhw hawl i gael rhywfaint o ddarpariaeth, neu ddarpariaeth lwyr yn y brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd roedd criw o academyddion oedd, yr un pryd, yn dweud mae'n rhaid i ni neud e nawr neu fyddwn ni wedi colli'r cyfle."**

Ychwanegodd: **"Oedd y tirwedd yng Nghymru yn newid. Doedd pobl ddim yn dadlau am statws y Gymraeg i'r un graddau. Roedd 'na statws i'r Gymraeg, mi oedd y tirwedd gwleidyddol hefyd wedi newid. Roedd yr ymgyrchu wedi symud o gael statws swyddogol i'r Gymraeg, i gael darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg".**






Ddechrau'r ganrif, roedd Catrin Dafydd yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac yn Llywydd UMCA 2003/04 (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth). Roedd yn un o arweinwyr yr ymgyrch i sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Meddai:

**"O'ch chi ddim yn gweithredu mewn ynys, roedd e'n llif parhaus o leisiau yn datgan bod y sefyllfa fel ag yr oedd hi ddim yn iawn. O ran Aberystwyth, roedd hi'n dod yn gynyddol amlwg bod yna ddeisyfiad gan fyfyrwyr i astudio mwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth yn amlwg wedyn bod myfyrwyr mewn prifysgolion eraill yn cydymdeimlo gyda'r pwynt a doedd 'na fawr ddim gwrthwynebiad ymysg myfyrwyr eraill wedyn. Er, ar y cyfan, bo ni ddim yn genhedlaeth oedd mor wleidyddol â myfyrwyr yr wythdegau, fi'n credu oedden ni'n gallu gweld drwy ddatganoli bod modd gweld geni strwythurau cenedlaethol yn ein cyfnod ni."**

Mae cyswllt Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr presennol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn mynd 'nôl i'r dyddiau cyn sefydlu'r Coleg. Bu'n arwain y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg ddechrau'r ganrif yn y cyfnod pan gyrhaeddwyd carreg filltir. Meddai: **"Cam allweddol oedd darbwyllo'r Cyngor Cyllido, oedd â chyfrifoldeb dros addysg uwch yng Nghymru ac ariannu addysg uwch, fod dysgu drwy'r Gymraeg yn rhywbeth oedd yn gorfod cael ei gynllunio ar lefel genedlaethol yn hytrach nag ar lefel leol neu adrannol yn unig."**

Aeth y Cyngor Cyllido ati i sefydlu Grŵp Cynllunio o dan gadeiryddiaeth Andrew Green, y Llyfrgellydd Cenedlaethol ar y pryd. Yn 2004, fe gynhyrchodd y Grŵp gynllun a fu'n rhan o'r sylfaen ar gyfer sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol maes o law. Y brif elfen oedd creu cynllun **Ysgoloriaethau Ymchwil**.

Ar y pryd, doedd adrannau prifysgolion ar hyd a lled Cymru ddim yn penodi siaradwyr Cymraeg i swyddi darlithio yn aml gan nad oedd gallu trin a thrafod pynciau yn y Gymraeg yn hanfodol heblaw am y Gymraeg ei hun fel pwnc, wrth gwrs.

▲
**Uchod:**
Myfyrwyr yn ymgyrchu dros sefydlu'r Coleg Cymraeg
Credyd llun: Rhys Llwyd



Meddai Dr Ioan Matthews: "**Y penderfyniad a wnaed oedd mynd ati i feithrin cenhedlaeth newydd o ysgolheigion a fyddai'n gymwys i'w penodi i swyddi darlithio. A dyna oedd pwrpas y cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil - galluogi pobl i gwblhau doethuriaeth ond gyda'r bwriad eu bod nhw wedyn ar ddiwedd y cyfnod yn cael cyfle i fod yn diwtoriaid am flwyddyn, yn y lle cyntaf beth bynnag, ac felly y gallen nhw fod yn ymgeiswyr am swyddi."**

Wrth i'r cynllun ddwyn ffrwyth, cafwyd datblygiad gwleidyddol arwyddocaol. Pan sefydlwyd Llywodraeth Glymblaid "Cymru'n Un" rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru yn 2007, daeth sefydlu corff i hyrwyddo addysg Gymraeg mewn prifysgolion yn bolisi swyddogol. Aed ati i greu bwrdd cynllunio dan arweiniad yr Athro Robin Williams oedd yn gyn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe.

Bron i 15 mlynedd yn ddiweddarach, dywed yr Athro Williams: **"O'n i'n meddwl ar y dechrau byddai hi bron yn amhosib cael pawb i gydweithio ac i gyd-weld â'i gilydd. Ond fel y trodd hi allan, oedd hi'n hollol wahanol. Mi oedd pawb ar yr un wavelength ac yn cyd-weld efo'i gilydd yn llawer mwy na fuaswn i erioed wedi'i ddisgwyl i ddeud y gwir. Roedd hyn yn andros o help."**

Ychwanegodd yr Athro Williams: **"Roedden ni i gyd yn gwybod fod yn rhaid i be bynnag oeddan ni'n ei roi 'mlaen fod yn weithredol – roedd yn rhaid iddo weithio. Oedd hi'n bwysicach cael rhywbeth oedd yn gweithio'n iawn na rhyw ddelwedd o ryw adeilad yn rhywle. Y cyfan oedd rhaid i ni neud oedd dod i fyny efo cynllun fyddai'n gweithio'n iawn ac yn dderbyniol i bawb. Roedd pob drws yn agored."**

Wedi cyhoeddi adroddiad y Bwrdd Cynllunio yn 2009, fe'i derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, ac wedi gwaith pellach gan grŵp gweithredu o dan gadeiryddiaeth Geraint Talfan Davies, dyna eni'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Uchod:**
Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg

# Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

## “ERBYN RŴAN, MAE PAWB YN HAPUS. MAE PAWB YN ELWA A NEB YN COLLI A HYNNY DRWY GYDWEITHIO EFO’R PRIFYSGOLION”

**Llun ar y dudalen nesaf:**
Yr Athro Robin Williams



Ym mis Mawrth 2011, fe sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dilyn penderfyniad polisi gan Lywodraeth Cymru. Dyma sefydliad strategol a chyllidol fyddai'n sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru. Y nod o'r cychwyn oedd cynhyrchu gweithlu Cymraeg a dwyieithog hyderus ar draws yr amrywiol feysydd.

Prifysgolion Cymru oedd y maes targed, gyda'r bwriad o gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg.

Y Prif Weithredwr ers y cychwyn yw Dr Ioan Matthews. Bu gynt yn arwain y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg gan baratoi'r tir ar gyfer sefydlu'r Coleg. Fe drosglwyddwyd staff y Ganolfan i weithio i'r Coleg ac mae nifer ohonynt yn parhau i weithio i'r sefydliad ddeng mlynedd yn ddiweddarach.

Meddai Dr Ioan Matthews: **"I ddechrau, fe wnaeth y Coleg fabwysiadu'r cynlluniau oedd yno'n barod, ond wrth gwrs roedd yna gyfle wedyn i wneud cymaint yn fwy gyda'r gyllideb sylweddol uwch."**

Un o'r pethau cyntaf wnaeth y Coleg ar ôl cael ei sefydlu oedd mynd ati i benodi darlithwyr – 26 yn y flwyddyn gyntaf. Roedd nifer o'r rhain



**Llun ar y dde:**
Dr Ioan Matthews

mewn meysydd lle nad oedd darpariaeth gynt i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ym Mhrifysgol Bangor, er enghraifft, penodwyd darlithydd mewn Cemeg, ac ym Mhrifysgol Aberystwyth penodwyd aelodau o staff i ddysgu Ecoleg a Ffiseg.

Erbyn sefydlu'r Coleg, roedd y myfyrwyr fu'n rhan o'r cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil a sefydlwyd yn 2005 yn dod i ddiwedd eu tymor astudio, ac yn barod i ymgymryd â swyddi darlithio. Fe gafodd nifer ohonyn nhw eu penodi'n ddarlithwyr y Coleg Cymraeg mewn amrywiol bynciau ac mewn amrywiol brifysgolion. Tyfu wnaeth nifer y darlithwyr oedd yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn ystod y pum mlynedd cyntaf noddodd y Coleg dros gant o ddarlithwyr i allu addysgu drwy'r Gymraeg mewn ystod eang o bynciau. Mae mwyafrif y darlithwyr hyn yn parhau i ddysgu drwy'r Gymraeg yn y prifysgolion heddiw er i'r cynllun staffio gwreiddiol ddod i ben yn 2020.

Yn 2011, roedd modd astudio yn y Gymraeg mewn 12 o'r 37 prif grŵp pwnc oedd yn cael eu dysgu o fewn addysg uwch. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae rhywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael mewn 33 o'r pynciau hynny mewn o leiaf un sefydliad. Mae hyn yn gynnydd o 175%.

Gyda'r darlithwyr yn eu lle, y nod wedyn oedd denu myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Delwedd:**
Dr Daniel Roberts

Un o lwyddiannau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw'r cynllun Ysgoloriaethau a gyflwynwyd i fyfyrwyr israddedig.


Yn 2011/12, roedd 2,715 o fyfyrwyr yn dilyn cwrs israddedig yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg, a 505 yn dilyn cyrsiau ôl-radd. Erbyn 2019/20, roedd nifer y myfyrwyr is-radd yn 5,270 a'r myfyrwyr ôl-radd yn 660.

Buan y tyfodd y ddarpariaeth i alluogi cynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd lle nad oedd y Gymraeg wedi bod yn iaith addysg prifysgol yn y gorffennol.

Dywed Dr Ioan Matthews: **"Rhai o'r llwyddiannau mwyaf yn fy marn i yw meysydd fel Meddygaeth oedd yn faes lle oedd yna broblem ddifrifol o ran diffyg cyfleoedd. Bellach mae hwn yn rhan ganolog o ddarpariaeth yr Ysgol Feddygaeth yng Nghaerdydd ac yn fuan gobeithio yr Ysgol newydd ym Mangor.**

**"Erbyn hyn, mae'n deg dweud bod prifysgolion yn cydnabod eu cyfrifoldeb mewn perthynas â darparu drwy'r Gymraeg."**

Ym Mhrifysgol Bangor, mae'r adran Beirianneg bellach yn cynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar ei chyrsiau gradd.



Meddai Dr Daniel Roberts, Darlithydd mewn Peirianneg Electroneg ym Mangor ac un o gyn-ddeiliaid Ysgoloriaeth Ymchwil y Coleg: **"Rydym bellach mewn sefyllfa i gynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob un o'n cyrsiau Peirianneg sy'n gam mawr i'r Ysgol. Mae nifer o fyfyrwyr wedi nodi pa mor fuddiol iddyn nhw ydy gallu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a dyna yw un o'u rhesymau am astudio ym Mangor."**

Yn ôl yr Athro Robin Williams, Cadeirydd y Bwrdd Cynllunio 'nôl yn 2007 a chyn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe: **"Cyn y Coleg, oedd yna densiynau ynglŷn â dysgu drwy'r Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o staff y colegau yn ddi-Gymraeg a rhai yn wrth-Gymraeg. Doeddan nhw ddim isio'r fath yma o beth. Ond erbyn rŵan, mae pawb yn hapus. Mae pawb yn elwa a neb yn colli a hynny drwy gydweithio efo'r prifysgolion. Rŵan mae unrhyw beth sy'n cael ei roi 'mlaen i hybu'r Gymraeg yn cael ei dderbyn yn llawer mwy rhwydd gan staff y prifysgolion."**

# CEFNOGAETH I'R GYMUNED ADDYSGU

"YN AML, DOEDD YNA DDIM GEIRIAU I GAEL, A DYNA UN O'R PETHAU ROEDD Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL YN EU GWNEUD OEDD ANNOG POBL I DDATBLYGU TERMINOLEG"

**Llun ar y dudalen nesaf:**
Dr Neil Hennessy



Cyn bodolaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prin oedd yr eirfa Gymraeg i drafod pynciau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn nifer o feysydd. Aed ati i greu ***Geiriadur Termau Addysg Uwch*** ar-lein i fyfyrwyr a staff i hwyluso'r broses o astudio, addysgu ac ymchwilio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bellach yn cynnwys termau technegol o ystod eang o feysydd academaidd gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Daearyddiaeth, Iechyd a Gofal, Mathemateg a Rheoli Coetiroedd.

**"Yn aml, doedd yna ddim geiriau i gael a dyna un o'r pethau roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn eu gwneud oedd annog pobl i ddatblygu terminoleg mewn meysydd. Oedd jyst dim geiriau i ddisgrifio rhai pethau yn y Gymraeg,"** meddai Meri Huws, cyn-Gomisiynydd y Gymraeg ac aelod cyfredol o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg.

Ychwanegodd: **"Roedd 'na dueddiad i ddweud, O, iaith y capel, iaith diwylliant, iaith celfyddydau oedd y Gymraeg ond roedd angen i'r Gymraeg fod yn rhan o iaith y gwyddorau ac yn y blaen, a dyna eto mae'r Coleg Cymraeg wedi'i neud yw annog y math yna o ddatblygiad yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol."**

I unrhyw fyfyriwr, darlithydd neu athro yn y sector ôl-orfodol, mae'r adnoddau sydd ar gael ar y ***Porth Adnoddau*** yn amhrisiadwy. Mae gwefan y Porth yn cynnig un lle canolog ar gyfer chwilio am adnoddau digidol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gefnogi eu dysgu ac addysgu. Yno, mae casgliad sylweddol o adnoddau ar draws ystod eang o feysydd, sydd ar gael drwy wahanol blatfformau'r Coleg yn ogystal ag adnoddau gan sefydliadau y mae'r Coleg yn cydweithio â nhw.

Bob blwyddyn, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dyfarnu hyd at ddeng ***Ysgoloriaeth Ymchwil*** sy'n para am dair blynedd. Mae'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil yn noddi myfyrwyr i astudio tuag at ddoethuriaeth gan hyrwyddo datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg a meithrin ymchwilwyr o'r radd flaenaf. Dyma'r brif ffrwd i greu darlithwyr y dyfodol.
Un a sicrhaodd Ysgoloriaeth Ymchwil oedd Dr Neil Hennessy ac mae o bellach yn Uwch Ddarlithydd yn Adran Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn un o Ddarlithwyr Cysylltiol y Coleg Cymraeg.

Meddai Dr Hennessy: **"Roeddwn yn ffodus iawn i ennill ysgoloriaeth ddoethuriaethol gan y Coleg. Yn ystod y cyfnod cyffrous hynny, ymgymerais ag ymchwil ynghylch datblygu dyfarnwyr dawnus, a chyflwynais mewn ambell i Gynhadledd a drefnwyd gan y Coleg Cymraeg. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfleon a'r profiadau y mae'r Coleg wedi'u rhoi i fi dros y blynyddoedd."**

Gweithio fel therapydd iaith a lleferydd oedd Rhonwen Lewis o fewn y Gwasanaeth Iechyd yng Ngwynedd pan lwyddodd i ennill Ysgoloriaeth PhD gyda'r Coleg Cymraeg i wneud prosiect ymchwil i ddatblygiad lleferydd mewn plant dwyieithog Cymraeg-Saesneg. Meddai: **"Roeddwn yn gwybod bod ymchwil ynghylch datblygiad iaith a lleferydd mewn plant dwyieithog yng Nghymru yn brin iawn a bod angen mwy o wybodaeth ar therapyddion er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth effeithiol i blant Cymraeg eu hiaith."**


Yn dilyn yr ysgoloriaeth ymchwil, llwyddodd i gael swydd fel darlithydd o fewn y cwrs BSc (Anrh.) Therapi Iaith a Lleferydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, oedd yn cael ei ariannu gan gynllun staffio'r Coleg. Ychwanegodd: **"Mae bodolaeth y Coleg wedi golygu 'mod i wedi gallu diwallu fy uchelgais o fod yn ddarlithydd a bod yn rhan o waith ymchwil blaengar sy'n mynd i gael effaith ar ddamcaniaeth a pholisi o fewn therapi iaith a lleferydd. Rydw i wedi gweld fy myfyrwyr yn graddio ac yn mynd ymlaen i yrfaoedd llwyddiannus yma yng Nghymru, ac mae hyn yn rhoi boddhad i mi gan fy mod yn gallu gweld eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant ac oedolion sy'n derbyn eu gwasanaeth."**

Mae ***Cynadleddau Ymchwil*** y Coleg Cymraeg yn rhan annatod o galendr academaidd Cymru erbyn hyn. Un effaith bositif o'r pandemig diweddar fu gallu agor y digwyddiadau yma drwy ddulliau rhithiol i academyddion sy'n siarad Cymraeg ond sy'n dysgu mewn prifysgolion y tu hwnt i Gymru.

Prif bwrpas y cynadleddau blynyddol yw rhoi cyfle i'r genhedlaeth nesaf o academyddion Cymraeg dorri eu dannedd ar gyflwyno eu hymchwil gerbron cyfoedion a chwrdd ag ysgolheigion eraill. Yng Nghynhadledd 2021 cyflwynwyd gwaith ymchwil amrywiol megis **"Datblygu therapïau i drin clefydau prion"** a **"Creu amddiffyniad i lofruddiaeth mewn amgylchiadau marwolaeth cynorthwyedig."**

Wrth astudio ar gyfer ei ddoethuriaeth mewn Peirianneg dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, roedd y profiad o gyflwyno'i ymchwil yn y cynadleddau hyn yn amhrisiadwy i Dr Daniel Roberts o Brifysgol Bangor. **"Roedd mynychu'r cynadleddau yn Aberystwyth ac yng Ngregynog yn gwneud i mi deimlo fel rhan o gymuned addysg uwch Gymraeg Cymru. Drwy'r cyfleoedd yma, cefais fy mhrofiad cyntaf o gyflwyno fy ngwaith i gynulleidfa, ac roedd hi'n bleser cael gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg,"** meddai Dr Roberts.

Ers ei sefydlu yn 2007, mae ***Gwerddon***, e-gyfnodolyn academaidd y Coleg Cymraeg, yn cael ei gyhoeddi o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cylchgrawn yn cynnwys ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Yn ogystal â darparu llwyfan ar gyfer cyhoeddi erthyglau ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y disgyblaethau, mae Gwerddon yn adnodd gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ystod eang o bynciau yn y brifysgol.



**Tudalen Flaenorol:**
Rhonwen Lewis

**Llun Isod:**
Dr. Daniel Roberts

Mae'r Coleg yn dyfarnu cyfres o **Wobrau Academaidd** yn flynyddol i fyfyrwyr a darlithwyr – Gwobr Merêd, Gwobr Goffa Dr John Davies, Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan, Gwobr Gwyn Thomas, Gwobr Norah Isaac a Gwobrau William Salesbury. Mae'r rhain yn cael eu dyfarnu i unigolion am waith, cyflawniad neu gyfraniad rhagorol yn y maes.

Mae'r gwobrau wedi eu sefydlu mewn amrywiol feysydd ac mae paneli dyfarnu unigol â chyfrifoldeb am eu dyfarnu. Mae'r Coleg hefyd yn urddo **Cymrodyr er Anrhydedd** bob blwyddyn.

Drwy sefydlu **Cynllun Darlithwyr Cysylltiol** yn 2018, llwyddwyd i greu cymuned fyw o ddarlithwyr sy'n cyfrannu at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y prifysgolion ac yn cyfrannu'n ehangach at waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n gyfle i ddarlithwyr rwydweithio gyda darlithwyr eraill, ymgeisio am grantiau'r Coleg, manteisio ar raglen hyfforddiant i ddarlithwyr a mynychu cynhadledd flynyddol y darlithwyr cysylltiol. Erbyn hyn, mae dros 350 o aelodau yn rhan o'r cynllun.



# GWEITHLU DWYIEITHOG Y DYFODOL

I'r siaradwyr Cymraeg sydd wedi dilyn llwybr addysg yng Nghymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi bod yn rhan amlwg o'u bywydau dros y degawd diwethaf. O ymweliadau gan staff y Coleg i ysgolion a cholegau addysg bellach, i'r stondinau yn yr eisteddfodau a'r sioeau amaethyddol, y cyfleoedd i ymgeisio am Ysgoloriaethau, y cyfle i fod yn Llysgenhadon ond yn bennaf y cyfle i ddilyn y cyfan neu ran o'u cyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, dyma gyfleoedd oedd ddim yn bodoli ddegawd yn ôl.

Cafwyd cynnydd gweladwy dros y degawd yn nifer y myfyrwyr fu'n astudio rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2011 roedd 2,715 o fyfyrwyr addysg uwch yn gwneud rhywfaint o'u cwrs israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2019/20, roedd hyn wedi codi i 5,270.

Yn yr un cyfnod, cododd nifer y myfyrwyr ôl-raddedig o 505 yn 2011 i 660 yn 2019/20.

Mae'r bartneriaeth gyda myfyrwyr a dysgwyr yn greiddiol i ethos a gweithgareddau'r Coleg. Mae llwyddiant addysg Gymraeg yn ddibynnol ar sicrhau bod llais myfyrwyr i'w glywed yn glir drwy gydol y broses addysgol

**"MAE'N DEBYGOL NA FYDDAI RHAI MYFYRWYR SYDD WEDI CYNHYRCHU GWAITH YN Y GYMRAEG WEDI GWNEUD HYNNY ONI BAI AM FY RÔL I."**


COLEG
CYMRAEG

# LENA—ZAHARAH MOHAMMED

Daeth **Lena-Zaharah Mohammed** i gyswllt gyda'r Coleg Cymraeg wrth astudio ar gyfer ei Lefel A yng Ngholeg Cambria. Lena oedd un o Lysgenhadon Addysg Bellach cyntaf erioed y Coleg Cymraeg. Mae bellach yn dilyn cwrs gradd yn astudio'r Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Diwylliant ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Lena yn astudio traean ei chwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddai Lena: **"Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i byth yn gallu astudio fy ngradd drwy gyfrwng y Gymraeg gan fy mod wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, ond dangosodd fy mhrofiad o'r gymuned Gymraeg yng Ngholeg Cambria i mi pa mor bwysig a buddiol ydy datblygu fy sgiliau Cymraeg ac felly cefais fy mherswadio i astudio yn Gymraeg ac i ymgeisio am un o Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg."**

**Llun ar y dudalen nesaf:**
Lena Zaharah Mohammed


COLEG
CYMRAEG

# DR RUTH — WYN —

**Llun ar y dudalen nesaf:**
Dr. Ruth Wyn Williams

Magwraeth Gymraeg a Chymreig gafodd **Dr Ruth Wyn Williams** ym Mhen Llŷn, ond trodd iaith addysg i'r Saesneg wrth iddi hyfforddi i fod yn nyrs a chwblhau cyrsiau gradd a meistr. Yn ei gwaith bob dydd ym maes anableddau dysgu, roedd yn llwyr ymwybodol pa mor hanfodol oedd gallu gweithio drwy'r ddwy iaith. Roedd wrth ei bodd pan gafodd gyfle i wneud ei doethuriaeth dan nawdd y Coleg Cymraeg.

**"Iaith bob dydd oedd y Gymraeg i mi, a phrin oedd y cyfleoedd i ysgrifennu a chyflwyno fy ngwaith yn y Gymraeg. Felly mawr yw fy niolch i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am y cyfle yn 2008 i newid hyn. Cefais gymorth drwy'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil i astudio tuag at ddoethuriaeth. Gyda chefnogaeth i loywi iaith, cyfleoedd i gynnal ymchwil a phrosiectau, darlithio, a chyflwyno fy ngwaith mewn cynadleddau yn y Gymraeg, fe ddatblygodd fy sgiliau a fy nealltwriaeth o'r pwysigrwydd i wneud mwy na siarad yn ddyddiol yn y Gymraeg."**

Darlithydd Nyrsio Anabledd Dysgu ym Mhrifysgol Bangor ydy gwaith Ruth Wyn Williams erbyn hyn ac ar hyn o bryd mae ar secondiad gyda Gwelliant Cymru fel Uwch Reolwr Gwelliant. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'i swydd. Meddai: **"Mae'r Gymraeg yn sylfaen i ddarparu dewis iaith i fyfyrwyr gofal iechyd ac yn sail i hyrwyddo gwelliannau sy'n cwrdd â gofynion ein cymunedau yng Nghymru. Rhaid parchu hunaniaeth a chynnal urddas ym maes iechyd ac mae'n hollbwysig i unigolion dderbyn gofal effeithlon sy'n adlewyrchu eu hiaith a'u diwylliant. Mae'n her cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd, ond rwy'n ymfalchïo yn y gefnogaeth a gefais fel myfyriwr ôl-radd, darlithydd a nyrs gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Drwy gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg, byddant yn creu sylfaen gadarn o weithlu iechyd dwyieithog."**

# WILLIAMS



# YSGOLORIAETHAU



Asgwrn cefn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fyfyrwyr yw'r Ysgoloriaethau. Mae bron i ddwy fil o bobl ifanc wedi derbyn Ysgoloriaethau i ddilyn cyrsiau yn y Gymraeg ers sefydlu'r Coleg yn 2011, ac maen nhw'n hynod boblogaidd. Yn 2021, cafodd y Coleg Cymraeg fwy o geisiadau am Ysgoloriaethau yn yr wythnos gyntaf o agor y ffenest ymgeisio na chyfanswm yr ysgoloriaethau gafodd eu dyfarnu i gyd yn y flwyddyn gyntaf yn 2011.

Yn ystod y degawd cyntaf, cafodd **£3.1 miliwn** ei ddyfarnu mewn Ysgoloriaethau Israddedig a Meistr.

# LLYSGENHADON

## "MAE'R COLEG WEDI NEWID AGWEDDAU, MAE WEDI NEWID Y TIRWEDD, MAE WEDI NEWID Y NARATIF, MAE WEDI NEWID Y STORI"

**Delwedd Isod:**
Meilyr Jones



Dros y degawd diwethaf, mae'r ffyrdd o gyfathrebu efo myfyrwyr wedi newid. Yr allwedd i'r cyswllt ydy'r myfyrwyr eu hunain sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac yn siarad ymhlith eu cyfoedion. Mewn ymgais i gyrraedd pobl sydd ddim yn dilyn y cyfryngau traddodiadol, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn penodi Llysgenhadon pob blwyddyn - myfyrwyr brwdfrydig, boed yn Gymraeg ail iaith neu iaith gyntaf, i rannu eu profiadau o'u prifysgolion dros Gymru gyfan, o'r astudio a phwysigrwydd y Gymraeg, i'r cymdeithasu. Y nod yw denu mwy i astudio yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle i feithrin sgiliau gwerthfawr fydd o gymorth i bobl ifanc wrth chwilio am waith yn y dyfodol.


Mae Meilyr Jones wedi manteisio ar y cynllun Llysgenhadon fwy nag unwaith. Bu'n Llysgennad israddedig tra'n astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn 2018 a 2020, ac yn 2021 roedd yn un o Lysgenhadon ôl-radd cyntaf y Coleg Cymraeg.

Meddai: **"Mae'r swydd yn cynnig amryw o gyfleoedd i fagu hyder a datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer y CV, roedd yn braf iawn yn ogystal creu cysylltiadau lu a chyfarfod myfyrwyr o brifysgolion ledled Cymru. Mae'n sicr yn magu'n hyder ni fel unigolion, wrth siarad yn gyhoeddus yn hyrwyddo gwaith gwych y Coleg a'r cyrsiau sydd ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â sgiliau wrth gyflwyno gwybodaeth a meddwl am syniadau wrth gydweithio gyda'r tîm marchnata ar y gwefannau cymdeithasol."**

# CANGHENNAU

Ar lawr gwlad, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio drwy'r Canghennau. Yn wreiddiol roedd saith cangen yn y prifysgolion. Nod y Canghennau yw cefnogi gwaith y Coleg a gweithredu fel pwynt cyswllt lleol i fyfyrwyr a staff. Mae'r Canghennau yn annibynnol ar y Coleg fel corff ac yn trefnu eu digwyddiadau eu hunain. Mae Canghennau nawr yn cael eu sefydlu mewn rhai colegau addysg bellach hefyd.

# "MAE PAWB YN ELWA A NEB YN COLLI."



# ADDYSG ÔL-16 A PHRENTISIAETHAU

▸
**Llun ar y dudalen nesaf:**
Kirsty Williams,
cyn-Weinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

Cyfnod pan fu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio'n llwyddiannus efo prifysgolion i osod sylfeini cadarn i addysg uwch cyfrwng Cymraeg fu'r blynyddoedd cynnar. Yn dilyn adolygiad yn 2017, cafwyd carreg filltir sylweddol arall yn hanes y sefydliad. Penderfynodd Llywodraeth Cymru adeiladu ar y seiliau cadarn hyn gan ymestyn rôl y Coleg i ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16 a phrentisiaethau.

Kirsty Williams oedd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar y pryd. Meddai ar ôl gadael y byd gwleidyddol yn 2021:

**"O ystyried pwysigrwydd y sector addysg bellach o ran darparu sgiliau a chymwysterau galwedigaethol a'r angen gwirioneddol am y sgiliau hyn yn y gweithle (er enghraifft mewn gofal plant a gofal cymdeithasol) roeddwn i'n teimlo ei fod yn flaenoriaeth. Fe'm trawyd hefyd fod diffyg tegwch gwirioneddol i'r myfyrwyr hynny a oedd wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol eu haddysg, nad oedd modd iddyn nhw barhau i wneud hynny o ddewis llwybr coleg addysg bellach yn hytrach nag aros yn chweched dosbarth yr ysgol."**

Yn ôl Meri Huws, Aelod o Fwrdd y Coleg Cymraeg a chyn-Gomisiynydd y Gymraeg, roedd hi'n amser symud ymlaen i'r maes pwysig yma: **"Mae'r Coleg wedi newid agweddau, mae wedi newid y tirwedd, mae wedi newid y naratif, mae wedi newid y stori. Mae addysg cyfrwng Cymraeg prifysgol yn rhywbeth sy'n cael ei gydnabod nawr fel rhywbeth sy'n hollol dderbyniol ac i'w groesawu. Mae hynny wedyn wedi creu'r tir i allu camu'n ôl i addysg ôl-16 a phrentisiaethau addysg bellach a dweud, Chi'n colli cyfle fan hyn bois. Mae prifysgolion yn darparu, mae ysgolion yn darparu, dyma'ch cyfle chi nawr."**

# “MAE PRIFYSGOLION YN DARPARU, MAE YSGOLION YN DARPARU, DYMA’CH CYFLE CHI NAWR”



Ychwanegodd Meri Huws: **"Mae addysg bellach a phrentisiaethau mor wahanol i ddiwylliant prifysgolion. Mae 'na bwyslais mawr ar y galwedigaethol, pwyslais mawr ar greu gweithlu, ond pwyslais ar addysgu pobl sy'n mynd i aros yn eu hardaloedd nhw eu hunain hefyd".**

Mae'r cyn Weinidog Addysg Kirsty Williams wedi canmol y ffordd mae'r Coleg wedi mynd ati i gydweithio efo'r sector yma:

**"Ymatebodd arweinyddiaeth y Coleg i'r her newydd gyda'u brwdfrydedd a'u ffocws nodweddiadol. Gydag unrhyw newid, mae datblygu perthynas yn allweddol a chredaf mai dyma fu hanfod llwyddiant y Coleg. Mae'r tîm wedi bod yn ofalus bob amser i weithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r achos dros newid, ac i gefnogi rhanddeiliaid allweddol i wneud gwahaniaeth mewn sefydliadau unigol. Pan fydd cyfyngiadau gwirioneddol, maen nhw wedi cydnabod hynny ac wedi canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion a chymorth ymarferol."**

Doedd y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y sector addysg bellach heb newid fawr ddim ers cychwyn datganoli ac felly roedd angen cynllun uchelgeisiol. Tynnu pawb at ei gilydd oedd y nod unwaith eto ac fe aed ati i gydweithio efo holl benaethiaid addysg bellach Cymru. Yn y prifysgolion, targedu myfyrwyr oedd yn siarad Cymraeg yn hyderus oedd y nod. Yn y sector ôl-16, y penderfyniad oedd targedu pob dysgwr beth bynnag fo'u gallu ieithyddol yn y Gymraeg.

Ond mae sialensiau ychwanegol ym maes addysg bellach yn ôl Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: **"Un o'r prif broblemau yw bod y cymwysterau yn cael eu darparu gan gyrff dyfarnu sydd wedi'u lleoli, ar y cyfan, y tu allan i Gymru a bod rhaid darbwyllo'r rhain i ddarparu'n ddwyieithog. Dyw e ddim yn unig yn fater o berswadio'r dysgwyr, dyw e ddim yn unig yn fater o sicrhau bod yna diwtoriaid ar gael, ond does yna ddim cymwysterau. Mae 'na ddarnau mawr o'r jig-so yma sydd angen eu datrys."**

Ond mae rhai darnau o'r jig-so hwnnw eisoes wedi cychwyn disgyn i'w lle:

- Mae'r un cylch yn cychwyn eto gyda phenodi 20 o diwtoriaid yn y flwyddyn gyntaf – dau bob un i'r deg coleg addysg bellach ar draws Cymru.
- Mae trafodaethau yn datblygu rhwng y Coleg Cymraeg a Chymwysterau Cymru.
- Mae adnoddau newydd yn cael eu comisiynu yn y meysydd blaenoriaeth.

Meddai Meri Huws: **"Yw e'n sialens? Ydy. Yr heriau 'dyn ni'n eu gweld ydy bod yna ddim traddodiad… does 'na ddim digon o bobl sy'n gallu hyfforddi a dysgu drwy'r Gymraeg, mae eisiau i ni greu'r gweithlu yna. Ond un peth dw i wedi'i sylwi gyda'r maes addysg bellach yw ei fod yn faes sy'n ymateb yn glou iawn iawn. Prin dwy flynedd sydd yna ers i'r Coleg Cymraeg fod yn gweithio gydag addysg bellach a phrentisiaethau ond mae'r cynnydd sydd wedi bod o ran newid agwedd eto, a hefyd yr awydd i weithio gyda'i gilydd i greu darpariaeth ar y cyd ar draws y colegau, wedi bod yn anhygoel. Mae yna rwydwaith o bobl ar draws y sector sy'n siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg sydd mor awyddus i weithio gyda'i gilydd i lwyddo."**

Fel cynllun peilot yng Ngholeg Sir Benfro, penodwyd tiwtor datblygu dwyieithrwydd ym maes Iechyd a Gofal. Med Richards yw'r unig diwtor sy'n siarad Cymraeg yn y gyfadran ac mae'i benodiad wedi gweld newid mewn agweddau ymhlith myfyrwyr a staff. Mae Grant Datblygu'r Coleg Cymraeg wedi rhoi mynediad i 162 o ddysgwyr i brofiadau dysgu dwyieithog – mae 12 myfyriwr yn dilyn hanner y cwrs Iechyd a Gofal lefel tri yn ddwyieithog ac mae 150 arall yn dilyn rhywfaint o ddarpariaeth yn ddwyieithog.

**Llun ar y dudalen nesaf:**
Meri Huws

**Credyd Llun:**
Comisiynydd y Gymraeg



Meddai Med Richards: **"Mae wedi fy ngalluogi i dreulio amser gyda grwpiau amrywiol o ddysgwyr, gan annog hyd yn oed y defnydd lleiaf o'r Gymraeg o fewn eu gwaith ynghyd ag annog mwy o ddefnydd o Gymraeg llafar. Mae'n debygol na fyddai rhai myfyrwyr sydd wedi cynhyrchu gwaith yn y Gymraeg wedi gwneud hynny oni bai am fy rôl i."**

Dr Barry Walters yw Prifathro Coleg Sir Benfro ac mae eisoes yn gweld y gwahaniaeth mae'r Coleg Cymraeg yn ei wneud yn y sector ôl-16.

**"Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig un pwynt cyswllt canolog a chymorth er mwyn dylanwadu ar gyrff dyfarnu ac asiantaethau eraill i gynorthwyo colegau i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog. Mae gallu manteisio ar rwydweithiau'r Coleg o ran hyfforddi staff a rheoli prosiectau wedi arwain at rannu arfer da rhwng y sector addysg bellach ac addysg uwch ac yn ein cynorthwyo ni wrth geisio creu dilyniant rhwng y ddau sector,"** meddai Dr Walters.

Ychwanegodd: **"Mae ymagwedd broffesiynol y Coleg, y cyswllt uniongyrchol a'r gefnogaeth ymarferol i gyd yn cynnal momentwm a'r ewyllys da yn y sector. Ddwy flynedd yn ôl pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y Gymraeg i'r Coleg Cymraeg, nid oedd canran o staff yn ymwybodol o waith y sefydliad, ond erbyn hyn mae yna barch mawr tuag at y Coleg Cymraeg ac rydyn ni'n eu hystyried yn gwbl allweddol wrth i ni barhau i ddatblygu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog."**

Un o bartneriaid y Coleg Cymraeg yw ColegauCymru, elusen addysg sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus addysg bellach yng Nghymru.

## "RÔL Y COLEG AM Y DEGAWD NESA YW CRYFHAU AC ATGYFNERTHU'R HYN SYDD WEDI DECHRAU – MAE'R DAITH YN PARHAU"

**Llun Isod**
Dr. Barry Walters





Meddai Prif Weithredwr ColegauCymru, Iestyn Davies: **"Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn chwarae rhan hanfodol yn y byd addysg ôl-16 yng Nghymru, nid yn unig ym meysydd addysg yn gyffredinol ond hefyd ym meysydd cynyddol bwysig addysg alwedigaethol a thechnegol. Gyda chyllid gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae ColegauCymru yn cydlynu prosiect Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector addysg bellach. Mae'r ddarpariaeth hon yn enghraifft gref o sut y gall partneriaethau llwyddiannus weithio a lle mae dysgwyr a gweithwyr fel ei gilydd yn elwa. Yn anffodus, mae pandemig y Coronafeirws wedi dod â sawl her i'r amlwg i'r sector addysg bellach, ac i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn benodol oherwydd diffyg adnoddau a chefnogaeth sydd ar gael o'i gymharu â chymheiriaid. Fe fydd yn hanfodol i sefydliadau ar draws y sector gydweithio er mwyn dysgu gwersi o'r cyfnod heriol hwn ac i gynllunio'n ddigonol ar gyfer y dyfodol."**

**Llun ar y Chwith**
Med Richards

# Y BENNOD NESAF



# "FYDD DIM GORFFWYS AR EIN RHWYFAU"

Nod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o'r cychwyn un oedd creu gweithlu sy'n hyderus i weithio yn ddwyieithog. Ac wrth i ddegawd arall gychwyn yn ei hanes, yr un yw'r bwriad.

Pan oedd Meri Huws yn cychwyn gweithio fel Comisiynydd y Gymraeg ac yn cyflwyno'r Safonau Iaith, roedd hi'n aml yn clywed cyflogwyr yn dweud nad oedd ganddyn nhw staff oedd yn gallu siarad Cymraeg. Law yn llaw â gwaith y Comisiynydd, roedd y Coleg wrthi'n cynhyrchu gweithlu'r dyfodol oedd ar gael wedyn i gyflogwyr ym mhob maes.

**"Dw i nawr yn cwrdd â phobl ifanc yn eu tridegau sydd wedi manteisio ar addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg - sawl un ohonyn nhw yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg - ond erbyn hyn yn llwyr ddwyieithog, ac yn broffesiynol ddwyieithog. Mae'n syndod i fi,"** meddai Meri Huws, sydd bellach yn aelod o Fwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn y prifysgolion, mae yna sylfeini cadarn bellach, ond fydd dim gorffwys ar y rhwyfau dros y degawd nesa yn y sector yma gan adeiladu ar waith y degawd a fu. Mi fydd y Coleg yn cydlynu a datblygu darpariaeth yn y Gymraeg ar draws pob maes academaidd yn y prifysgolion, yn parhau i weithio efo partneriaid, ac yn gosod cynlluniau penodol ar waith i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg mewn pynciau blaenoriaeth yn ein prifysgolion.

Ar gychwyn degawd newydd, y flaenoriaeth yw'r sector ôl-16 a phrentisiaethau. Mae'r sectorau hyn yn cynnig heriau a chyfleoedd gwahanol i'r Coleg gan fod y mwyafrif llethol o ddysgwyr yn lleol i'r colegau addysg bellach a'r darparwyr prentisiaethau. Mae'r dysgwyr i gyd yn gynulleidfa darged i'r Coleg ac mae'r cynlluniau sydd wedi eu datblygu yn seiliedig ar fodel sy'n darparu cyfleoedd hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i bob dysgwr – o gyrsiau gloywi iaith i allu dilyn cyrsiau llawn drwy'r Gymraeg.

# “ALLWN NI DDIM CYMRYD EIN TROED OFF Y PEDAL”

Dyw’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddim yn gweithio mewn ynys, ac mae’r gwaith sy’n cael ei wneud gan y sefydliad yn bwydo mewn i waith nifer o gyrff a pholisïau ehangach gan gynnwys polisi Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os yw person ifanc yn parhau â rhywfaint, neu’u holl addysg bellach yn y Gymraeg mae’n bosib yr ânt ymlaen i ddilyn cwrs prifysgol yn y Gymraeg a/neu sicrhau swydd yng Nghymru lle mae modd gweithio’n ddwyieithog. Os yw’r myfyriwr yn mentro i fyd gwaith ar ôl cwblhau eu cwrs addysg bellach neu brentisiaeth, yna’r gobaith yw y byddan nhw’n aros yn eu cymunedau gan sicrhau swyddi dwyieithog, magu teulu yn lleol, dod yn rhan o’r gymuned a chadw’r Gymraeg yn iaith fyw ar lefel broffesiynol a chymdeithasol.

Mae sicrhau cyflenwad digonol o athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr yn allweddol i lwyddiant strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol eisiau chwarae ei ran a chyfrannu at y maes hwn i sicrhau digon o athrawon i ddiwallu’r cynnydd yn y galw. Mae angen pwyslais llawer cryfach ar gynyddu sgiliau iaith Gymraeg pob hyfforddai fel rhan greiddiol o’u hyfforddiant cychwynnol yn y prifysgolion.

Meddai Dr Ioan Matthews: **“Corff cynllunio yw’r Coleg yn y bôn sy’n galluogi pethau i ddigwydd drwy sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosib.”**

Dros y degawd nesaf, bydd rhagor o gynllunio, rhagor o gydweithio efo partneriaid, rhagor o greu adnoddau a chynhyrchu athrawon a darlithwyr i sicrhau gweithlu dwyieithog hyderus ar hyd a lled Cymru.

Wrth edrych ymlaen at y degawd nesaf, dywed Meri Huws, aelod o Fwrdd y Coleg Cymraeg: **“Beth y’n ni’n neud yw creu gweithwyr y dyfodol fydd yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Os ydyn nhw’n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, y tebygrwydd yw y byddan nhw’n aros yng Nghymru a gweithio’n ddwyieithog yng Nghymru. Dyna’r bobl sydd am fod yn rhieni’r dyfodol a hefyd y bobl yna sy’n mynd i gadw cymunedau yn fyw, neu atgyfodi’r cymunedau hefyd.”**

Ychwanegodd Ms Huws: **“Mae rôl y Coleg Cymraeg i greu’r gweithlu yna mor bwysig. Allwn ni ddim cymryd ein troed off y pedal chwaith. Ni ’di cyrraedd fan hyn. Mae angen normaleiddio hwn nawr, a dw i’n gweld bod rôl y Coleg am y degawd nesa yn mynd i fod yn cryfhau ac atgyfnerthu’r hyn sydd wedi dechrau – mae’r daith yn parhau.”**